

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ionawr 7fed, 2016 yn Neuadd Llanystumdwy..

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Elis Gwyn Jones; Sian Angharad Parry; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Gwilym M Thomas; Naomi Jones a William Ifor Hughes.

8. Croesawyd y Cyngorydd Sian Angharad Parry fel Cyngorydd newydd i gynrychioli Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ragfyr 3ydd, 2015.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Rhagfyr 2015. Derbyniwyd.

2. Cefnogaeth Gorfforaethol; Her Gwynedd, cadarnhau'r rhestr y gofynnwyd am y gwariant arnynt yn y gymuned hon (gweler cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr). Penderfynwyd derbyn.

3. Sedd wag Ward Rhoslan; rhybudd gan y Swyddog Cofrestru. Derbyniwyd; mae copi o'r rhybudd ar yr hysbysfwrdd yn Rhoslan ac ar safle we'r Cyngor.

4. Praesept 2016/17. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn am £15,000-, yr un swm â'r llynedd.

*Trwy Ganiatad y Cadeirydd

* 6. Cyngor Gwynedd – Cais rhif C15/1382/41/RC- Cais i dynnu Cytundeb 106 angen lleol; Hafod y Rhos, Chwilog. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i'r cais yma.

7. Biniau Halen. Gwybodaeth gan Glerc Cyngor Cymuned Clynnog Fawr. Derbyniwyd er gwybodaeth.

9. Ymgynghoriad Gwasanaethau Merched a Mamolaeth; diweddariad ac ymateb.

Hefyd gohebiaeth oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Derbyniwyd er gwybodaeth.

10. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Llanarmon

Llanystumdwy

Rhoslan

Llangybi; Dŵr ar lôn Pencaenewydd i Talafon. Oherwydd bod dŵr ar ffyrdd a gwteri angen eu clirio gydol y sir yn dilyn y glawogydd diweddar penderfynwyd peidio cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd, iddynt gael cyfle i wneud y gwaith sydd angen ei wneud.

11. Un Llais Cymru, Cwrs ar Ddatganoli Gwasanaethau, Caernarfon, nos Iau, Rhagfyr 10fed. Ni chynhaliwyd y cwrs. Derbyniwyd.

12. Adroddiad ariannol ar lafar. Penderfynwyd derbyn.

13. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr Clifford Hughes, Torri Cae Chwarae x 2, Torri drain a Glanhau Matiau; £301- (Parciau a Mannau Agored); Torri Llwybrau, ail doriad, £340- (Priffyrdd, Llwybrau a Llochesi Bysiau); Cyfanswm yr anfoneb : £641-. Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Cyllid a Thollau EM; £171.80c.(Gweinyddu) Taliad Siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100913.

c. Cyflog Chwarterol y Clerc, £687.20c net.(Gweinyddu) Taliad Siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100914.

Ch. Costau Chwarterol y Clerc, £180.20c. (Gweinyddu) Taliad Siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100915.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.